OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 47

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**4.**—(1) Mae rheoliad 28(5) (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ar ôl is-baragraff (m)(ii), hepgorer "neu".

(3) Ar ddiwedd is-baragraff (n), yn lle "." rhodder "; neu".

(4) Ar ôl is-baragraff (n) mewnosoder—

"(o) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a adawodd Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022 ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971; neu

(ii) sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno."